# Cynllun Gweithredu LHDTC+ ar gyfer Cymru

Gyda'n Gilydd â Balchder – gwneud Cymru y genedl fwyaf cyfeillgar i bobl LHDTC+ yn Ewrop

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Helo

Mae Llywodraeth Cymru eisiau i Gymru fod yn **genedl LGBTQ+ gyfeillgar.**

Rydyn ni eisiau i Gymru fod yn rhywle lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, pawb yn gallu bod yn nhw eu hunain, a phawb yn gallu bod yn iach ac yn hapus.

## Rydyn ni wedi ysgrifennu Cynllun Gweithredu **LLGBTQ+ ar gyfer Cymru.**

**Cyfraith y DU**

Rydyn ni eisiau gwneud cymaint â phosibl i helpu pobl LGBTQ+ i gael eu hawliau ac i gael eu trin yn deg. Yng Nghymru, mae'r pŵer gennyn ni i newid y gyfraith mewn rhai meysydd, ond mae'n rhaid mai Llywodraeth y DU sy'n gwneud cyfreithiau eraill.

Mae hyn yn cynnwys pobl anneuaidd sy'n ystyried eu hunain naill ai'n wryw neu'n fenyw.

**L** – **Lesbiaidd**

**H** – **Hoyw**

**D** – **Deurywiol**

**T** – **Trawsrywiol**

**Q** – **Cwiar ac yn/neu'n Cwestiynu**

**+** – **Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaethau rhywedd eraill**





# Diweddariad Dyfarniad y Llys Uchaf ar Gynllun LHDTC+ 19fed Rhagfyr 2025

**Diweddariad ar ddyfarniad y Goruchaf Lys**

Ar ôl dyfarniad Goruchaf Lys y DU ar 16 Ebrill 2025 yn achos For Women Scotland Ltd v Gweinidogion yr Alban, mae "menyw" yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfeirio at rywun a gofrestrwyd yn 'fenywaidd' pan gafodd ei eni.

Yn yr un modd, mae "dyn" yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn cyfeirio at rywun a gofrestrwyd yn 'wrywaidd' pan gafodd ei eni.

Mae'r dyfarniad hefyd yn ei gwneud yn glir bod y gair "rhyw" yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn golygu rhyw person pan gafodd ei eni.

Mae'r diffiniadau hyn hefyd yn golygu'r un peth yn y Cynllun Gweithredu LHDTC+ i'r graddau y mae'n ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd mwy o ddiwygiadau yn cael eu gwneud i'r Cynllun i wneud yn siŵr ei fod yn cyd-fynd â'r dyfarniad.

## Cefndir y cynllun

Mae nifer o bethau wedi gwella ar gyfer pobl LHDTC+ Ond mae rhai pobl yn dal i wynebu rhwystrau — yn y gweithle, mewn addysg, gofal cymdeithasol, a mwy.

Mae rhai pobl yn wynebu gwahaniaethu am fod yn bobl LHDTC+ ond hefyd oherwydd eu hoedran, hil, crefydd neu anabledd. Mae hyn yn gwneud eu bywyd hyd yn oed yn fwy anodd.

Hoffem sicrhau bod gan bob unigolyn LHDTC+ ei hawliau ac yn ddiogel, waeth pwy ydyw.

Bydd y cynllun hwn yn helpu i:

- **wella** bywydau pobl LHDTC+
- **herio** gwahaniaethu a gwneud bywyd yn dechach
- **creu** cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn ddiogel i fyw ynddi a bod yn nhw eu hunain.




## Cynnwys pobl yn y cynllun

Datblygwyd y Cynllun Gweithredu LHDTC+ gyda chymunedau a sefydliadau o bob rhan o Gymru.

Cafodd ein hymgynghoriad dros 1,300 o ymatebion.

**Camwahaniaethu** — pan mae rhywun yn cael ei drin yn wahanol oherwydd pwy ydyw.

**Hawliau** — Mae gan bawb hawliau, pwy bynnag ydyn nhw, lle bynnag maen nhw'n byw neu beth bynnag maen nhw'n ei gredu. **Mae Deddf Hawliau Dynol 1998** yn manylu ar yr hawliau sydd gan oedolion. Mae **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)** yn manylu ar hawliau plant a phobl ifanc.

# Ein gweledigaeth ar gyfer pobl LHDTC+

Hoffem wella cydbwysedd a chryfhau hawliau dynol.

Hoffem wneud Cymru yn lle mwy diogel.

Hoffem wneud Cymru yn Genedl Noddfa.

Hoffem sicrhau bod pawb yn derbyn y canlyniadau gofal iechyd gorau.

Hoffem sicrhau y gall pawb gymryd rhan mewn addysg a dysgu.

Hoffem sicrhau y gall pawb gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd.

Hoffem wrando ar gymunedau LHDTC+ a gweithio gyda nhw.

Hoffem amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl draws ac anneuaidd.



# Hawliau Dynol

Dylid parchu hawliau LHDTC+. Nid ydym am i unrhyw un gael niwed, na chael ei fwlio na'i drin yn wael oherwydd pwy ydyw.

## Ein gweithredoedd:

1. Byddwn yn sicrhau bod pawb yn ymwybodol am hawliau dynol ac yn deall pa mor bwysig ydynt i bobl LHDTC+.
2. Byddwn yn sicrhau bod pawb yn gwybod sut i ddefnyddio eu hawliau dynol.
3. Byddwn yn defnyddio'r pwerau sydd gennym i wahardd Arferion Trosi.
4. Byddwn yn sicrhau y gwrandewir ar bobl LHDTC+ ac y cynrychiolir nhw fwy ar fforymau.
5. Byddwn yn gofyn i bobl LHDTC+ ein helpu ni i gynllunio a gwella gwasanaethau.
6. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o bobl anneuaidd a rhyngrywiol, a derbyniad ohonynt.
7. Byddwn yn trio symud penderfyniadau ynglŷn â Chydnabyddiaeth Rhywedd i'r Senedd fel bod gennym y pŵer i wneud yr hyn sy'n iawn i Gymru.
8. Byddwn yn dangos i'r byd sut mae Cymru yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi cymunedau LHDTC+.

***Arferion Trosi** — Mae rhai grwpiau yn credu ei bod hi'n bosibl newid neu 'wella' rhywun rhag bod yn unigolyn LHDTC+ a chynnig arferion niweidiol. A gall hynny fod yn dreisgar a pheri anafiadau.



## Dylech allu dweud...

*Mae fy hawliau yn cael eu parchu.*

*Mae Cymru yn lle cyfeillgar, diogel.*

*Rwy'n rhydd i fod yn fi fy hun, a does neb yn ceisio fy newid.*

*Mae fy safbwyntiau yn glanio ar glustiau agored a chaf fy nghynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar fy mywyd.*

*Rwy'n ymwybodol o'm hawliau ac yn gwybod sut i weithredu arnynt.*

# Diogelwch a rhyddid rhag gwahaniaethu

Mae llawer o bethau wedi gwella yng Nghymru ond mae rhai pobl LHDTC+ yn dal i deimlo'n anniogel. Mae cyfraddau trosedd gasineb wedi cynyddu. Mae angen rhoi terfyn ar hyn.

## Ein gweithredoedd:

**9** Byddwn yn ei gwneud hi'n haws i bobl LHDTC+ adrodd ar droseddau casineb.

**10** Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n atal troseddau casineb ledled Cymru.

**11** Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael â bwlio a throseddau casineb LHDTC+.

**12** Byddwn yn gweithio gyda'r Heddlu i wella perthnasoedd gyda chymunedau LHDTC+.

**13** Byddwn yn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymhlith cymunedau LHDTC+.

**14** Byddwn yn sicrhau ei bod hi'n rhwydd defnyddio gwasanaethau digartref a'u bod yn bodloni anghenion pobl LHDTC+.



## Dylech allu dweud...

*Gwn beth yw trosedd gasineb a gwn sut mae adrodd achosion ohoni.*

*Mae fy safbwyntiau yn glanio ar glustiau agored ac yn cael eu parchu.*

*Mae'r Heddlu a'r staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau yn deall fy anghenion ac yn fy nghefnogi.*

*Os ydw i'n wynebu trais gartref, gallaf ei adrodd a chael cefnogaeth.*

# Cenedl Noddfa

Mae Cymru yn Genedl Noddfa i bawb, ni waeth o le y dônt. Nid oes gennym y pŵer dros benderfyniadau yn ymwneud â cheiswyr lloches na ffoaduriaid, ond mae gan Lywodraeth y DU. Rydym yn anghytuno â nifer o bolisïau Llywodraeth y DU gan ein bod yn credu eu bod yn rhoi ffoaduriaid a cheiswyr lloches LHDTC+ mewn risg o niwed a chamdriniaeth. Byddwn yn parhau i wella sut caiff ceiswyr lloches neu ffoaduriaid LHDTC+ eu trin.

## Ein gweithredoedd:

**15** Byddwn yn sicrhau bod pobl LHDTC+ sy'n hawlio lloches yn cael eu hadnabod, eu cadw'n ddiogel ac yn cael cefnogaeth.

**16** Byddwn yn annog ac yn cefnogi tai ceiswyr lloches LHDTC+ yng Nghymru.

**17** Byddwn yn sicrhau bod Cymru yn Genedl Noddfa ar gyfer pobl LHDTC+.



## Dylech allu dweud...

*Rwy'n teimlo'n ddiogel i fod yn fi.*

*Rwy'n teimlo fy mod wedi fy nghroesawu yn fy nghymuned a bod pobl yn gyfeillgar.*

*Rwy'n ddiogel rhag niwed a gallaf ddatblygu bywyd newydd.*

*Nid oes rhaid i mi guddio fy mherthnasoedd neu bwy ydyw.*

# Gofal iechyd, gofal cymdeithasol, a llesiant

Mae rhai pobl LHDTC+ yn ei chael hi'n anodd cael cymorth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae rhai yn teimlo'n anniogel neu'n frawychus i sgwrsio am eu hanghenion. Mae hyn yn cynnwys pobl anabl LHDTC+ a phobl hŷn LHDTC+ mewn cartrefi gofal.

## Ein gweithredoedd:

**18** Byddwn yn gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel eu bod yn bodloni anghenion pobl LHDTC+ yn well. Mae hyn yn cynnwys cleifion LHDTC+ a staff LHDTC+.

**19** Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a ffrwythlondeb ar gael ac yn rhwydd eu defnyddio ar gyfer pobl LHDTC+.

**20** Byddwn yn sicrhau bod ein Strategaeth Iechyd Meddwl yn cynnwys anghenion pobl LHDTC+.

**21** Byddwn yn cyhoeddi ac yn cyflawni Cynllun Gweithredu HIV newydd.

**22** Byddwn yn lleihau rhwystrau ar gyfer pobl LHDTC+ gan ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl.

**23** Byddwn yn adolygu'r Llwybr Datblygu Hunaniaeth Rhywedd ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.

**24** Byddwn yn parhau i ddatblygu Gwasanaeth Rhywedd Cymru.

**25** Byddwn yn gwella sut caiff gwybodaeth ei chofnodi ar gyfer cofnodion meddygol pobl draws, anneuaidd a rhyngrywiol.



## Dylech allu dweud...

*Mae gwasanaethau yn fy nhrin a pharch.*

*Mae meddygon a staff eraill y GIG wedi'u hyfforddi'n dda ac yn gwybod sut i fodloni fy anghenion.*

*Gallaf dderbyn cymorth ffrwythlondeb i ddechrau teulu.*

*Mae gennyf gymorth ar gyfer iechyd meddwl!*

# Addysg

Mae ysgolion, colegau a phrifysgolion yn lleoedd da i ddatblygu parch a dealltwriaeth. Mae'r cwricwlwm newydd yng Nghymru yn cynnig mwy o gyfleoedd i drafod mwy am barch, hunaniaethau LHDTC+, rhywioldeb a rhywedd.

## Ein gweithredoedd:

**26** Byddwn yn rhoi canllawiau trawsrywedd newydd i ysgolion ac awdurdodau lleol.

**27** Byddwn yn cefnogi pobl LHDTC+ ac yn mynd i'r afael â bwlio.

**28** Byddwn yn sicrhau bod ysgolion yn ddiogel ac yn groesawgar i ddysgwyr a staff LHDTC+.

**29** Byddwn yn sicrhau bod colegau a phrifysgolion yng Nghymru yn ddiogel ac yn groesawgar ar gyfer dysgwyr a staff LHDTC+.



## Dylech allu dweud...

*Rwy'n teimlo'n ddiogel a gallaf ddysgu.*

*Rwy'n gweithio mewn coleg sy'n deall fy anghenion ac yn fy nghefnogi.*

*Mae athrawon yn gwybod sut i fy nghefnogi.*

*Rwy'n teimlo fy mod wedi fy mharchu a gallaf fod yn fi fy hun.*

# Cymunedau a bywyd teuluol

Mae llawer o bobl LHDTC+ o wahanol gefndiroedd, crefyddau a diwylliannau yng Nghymru. Dylai eu bod yn gallu byw mewn unrhyw gymuned, yn teimlo perthyn ac yn rhydd i fwynhau bywyd teuluol.

## Ein gweithredoedd:

**30** Byddwn yn cefnogi pobl LHDTC+ a'u teuluoedd.

**31** Byddwn yn sicrhau y gall gweithwyr ieuenctid gefnogi pobl ifanc LHDTC+.

**32** Byddwn yn cefnogi sgyrsiau rhwng grwpiau ffydd a phobl LHDTC+ i annog parch a gonestrwydd.

**33** Byddwn yn sicrhau bod gan siaradwyr Cymraeg LHDTC+ gymorth a gwasanaethau yn y Gymraeg.

**34** Byddwn yn sicrhau bod pobl LHDTC+ yn cael cymorth i fod yn rhan o etholiadau, pleidleisiau ac yn sefyll mewn etholiad pe dymunant.

**35** Byddwn yn cefnogi sefydliadau Pride ledled Cymru.

**36** Byddwn yn defnyddio digwyddiadau LHDTC+ i godi ymwybyddiaeth.

**37** Byddwn yn cefnogi cyn-filwyr LHDTC+ y Gwasanaethau Arfog.



## Dylech allu dweud...

*Rwy'n teimlo fy mod wedi fy nghroesawu yn fy nghymuned.*

*Mae gweithwyr ieuenctid yn gwrando arnaf ac yn fy nghefnogi.*

*Gallaf bleidleisio dros bobl sy'n cynrychioli fy safbwyntiau am fywyd.*

*Mae gennyf adnoddau i'm helpu i ddeall anghenion fy mhlentyn yn Gymraeg.*

# Cymryd rhan ym mywyd, diwylliant a chwaraeon Cymru

Dylai bod pawb yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon, diwylliant a gweithgareddau eraill, a chymryd rhan ynddynt. Mae rhai pobl LHDTC+ yn wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan ac yn teimlo'n anniogel neu'n anghyfforddus.

## Ein gweithredoedd:

**38** Byddwn yn sicrhau y gall pawb gymryd rhan mewn chwaraeon a chynrychioli eu cymuned.

**39** Bydd hyn yn helpu i bobl drawsryweddol deimlo'n ddiogel i gymryd rhan mewn chwaraeon.

**40** Byddwn yn dathlu ac yn gwella'r gynrychiolaeth o gymunedau LHDTC+ yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru.

**41** Byddwn yn sicrhau bod mwy o bobl a sefydliadau LHDTC+ yn gallu cymryd rhan mewn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol.



## Dylech allu dweud...

*Gallaf gymryd rhan yn y pethau sydd o ddiddordeb i mi.*

*Rwy'n teimlo'n ddiogel i gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol.*

*Gallaf geisio profiad gwaith a dechrau ar yrfa mewn chwaraeon.*

*Mae Diwylliant Cymru yn cynnwys pobl LHDTC+ fel fi!*

# Gweithleoedd

Mae llawer o weithleoedd a chyflogwyr ledled Cymru yn ddiogel ac yn rhoi cyfle cyfartal i bobl LHDTC+. Ond mae eithriadau.

## Ein gweithredoedd:

**42** Byddwn yn cael gwared ar ffyrdd personol o adnabod pobl, fel rhywedd, o ffurflenni cais am swyddi a ffurflenni cyflogaeth eraill.

**43** Byddwn yn cynnig hyfforddiant cydraddoldeb LHDTC+ i sefydliadau'r sector cyhoeddus.

**44** Byddwn yn annog cyflogwyr i gefnogi'r bobl LHDTC+ sy'n gweithio iddyn nhw.



## Dylech allu dweud...

*Mae fy nghyflogwr yn sicrhau bod pobl yn defnyddio fy rhagenwau dewisol.*

*Teimlaf fy mod wedi fy nghynnwys a'm parchu yn fy ngweithle.*

*Gallaf ddatblygu fy sgiliau.*

*Teimlaf fy mod wedi fy mharchu a'm bod yn cael cyfleoedd i lwyddo yn fy ngyrfa.*

# COVID-19

Mae'r pandemig wedi gwneud bywyd yn fwy anodd i lawer o bobl, gan gynnwys pobl LGBTQ+.

## Ein gweithredoedd:

**45** Byddwn yn parhau i helpu pawb adfer wedi COVID-19, gan gynnwys pobl LHDTC+ a'u hiechyd meddwl.

**46** Byddwn yn edrych ar sut mae pobl LHDTC+ (yn bennaf pobl ifanc LHDTC+ a phobl anabl LHDTC+), wedi'u heffeithio gan y pandemig.

## Dylech allu dweud...

*Mae gennyf gefnogaeth a gallaf sgwrsio gyda phobl am sut mae'r pandemig wedi effeithio arnaf.*

*Rwy'n dod yn ôl ar fy nhraed ac yn teimlo'n rhydd i fod yn fi fy hun eto.*

*Mae'r pandemig wedi effeithio ar fy iechyd meddwl, ond rwy'n derbyn cefnogaeth.*



# Camau nesaf

Byddwn yn gwirio bod y cynllun hwn yn gwneud gwahaniaeth i fywydau ledled Cymru a byddwn yn parhau i gynnwys pobl LHDTC+ yn ein gwaith.

## Diolch am ddarllen

Cewch ddarllen y cynllun yn llawn yma:
llyw.cymru/cynllun-gweithredu-lhdtc-cymru

